

Noder: Defnyddir y term "Cyngor Plwyf Eglwysig" yn y ddogfen hon i ddisgrifio corff ymddiriedolwyr yr eglwys leol sy'n gyfrifol am reoli'r eglwys, y neuadd a'r fynwent. Gall y cyrff hyn hefyd gael eu hadnabod fel Cyngor yr Ardal Weinidogaeth, Cyngor yr Ardal Weinidogaeth Leol, Cyngor Bywoliaeth Reithorol, Cynhadledd Ardal Genhadaeth, neu unrhyw derm arall a ddynodir gan bolisiau esgobaethol.

## Cytundeb Llogi

Gwneir y cytundeb hwn ar y \_\_\_\_\_ rhwng Cyngor Plwyf Eglwysig y \_\_\_\_\_ [cyfeiriad]

a'r Llogwr \_\_\_\_\_ [enw'r sefydliad/llogwr]

o \_\_\_\_\_ [cyfeiriad y sefydliad/llogwr]

Mae'r Cyngor Plwyf Eglwysig yn cytuno i ganiatáu i'r Llogwr ddefnyddio'r Safle a elwir yn \_\_\_\_\_

at ddiben \_\_\_\_\_

ar y \_\_\_\_\_ [y Cyfnod Llogi].

Nodir yr arian sydd i'w dalu gan y Llogwr i'r Cyngor Plwyf Eglwysig o dan y cytundeb hwn yn Atodlen 3.

### 1. Y Cyngor Plwyf Eglwysig:

(a) Cynrychiolydd Awdurdodedig: \_\_\_\_\_

(b) E-bost: \_\_\_\_\_

(c) Rhif cyswllt: \_\_\_\_\_

### 2. Swyddog Diogelu'r Eglwys yng Nghymru yw:

(a) Enw: \_\_\_\_\_

(b) E-bost: \_\_\_\_\_

(c) Rhif cyswllt: \_\_\_\_\_

### 3. Y Llogwr:

(a) Cynrychiolydd Awdurdodedig: \_\_\_\_\_

(b) E-bost: \_\_\_\_\_

(c) Rhif cyswllt: \_\_\_\_\_

- Mae'r Llogwr a/neu ei Gynrychiolydd Awdurdodedig fel y bo'r achos yn cytuno i fod yn bresennol bob amser yn ystod y Cyfnod Llogi ac i gyflawni'r darpariaethau a'r amodau a gynhwysir neu y cyfeirir atynt yma. Mae'r Llogwr yn cytuno i hysbysu ei Gynrychiolydd Awdurdodedig o'r telerau a'r amodau y cytunir arnynt yma.
- Y cytundeb hwn yw'r cytundeb cyfan rhwng y partion ac mae'n disodli ac yn dileu'r holl gytundebau, addewidion, sicrwydd, gwarantau, sylwadau a dealltwriaeth flaenorol rhyngddynt, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar, sy'n ymwneud â'i bwnc. Mae'r cytundeb yn ymgorffori'r 'Amodau Llogi Safonol', y 'Ffi Llogi', a'r 'Amodau Arbennig', a'r 'Amodau Diogelu' sydd ynghlwm yn Atodlenni I i 4. Mae'r Llogwr yn cydnabod nad yw'r Daflen Wybodaeth yn rhan o'r cytundeb ond mae'n cydnabod ei derbyn.

Ymrwymwyd i'r cytundeb hwn ar y dyddiad a nodwyd ar ei ddechrau.

Llofnodwyd gan y person a enwir yn I(a) uchod ar ran y Cyngor Plwyf Eglwysig:

---

## LLOFNOD

Llofnodwyd gan y person a enwir yn 3(a) ar ran y Llogwr, sydd, wrth lofnodi, drwy hyn hefyd yn datgan y canlynol:

- Yr wyf yn datgan bod y wybodaeth a roddir yn y cytundeb hwn yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth ac rwy'n cydnabod y bydd unrhyw gamddatganiad neu gamliwio yn annilysu'r cytundeb.
- Datganaf fy mod yn deall ystyr y telerau a'r amodau yn y cytundeb hwn.

*Peidiwch â llofnodi os oes amheuaeth ynghylch ystyr unrhyw derm o fewn y cytundeb hwn. Dylid ymgynghori ar unwaith â Chynrychiolydd Awdurdodedig y Cyngor Plwyf Eglwysig os oes amheuaeth.*

---

## LLOFNOD

# **Atodlen I - Amodau Llogi Safonol**

## **1. Goruchwyliaeth**

Bydd y Llogwr, yn ystod cyfnod y llogi, yn gyfrifol am oruchwyllo'r Safle, yr adeiledd a'r cynnwys: gofalu amdanynt, eu diogelu rhag difrod waeth pa mor fach bynnag: neu newid o unrhyw fath ac ymddygiad pawb sy'n defnyddio'r Safle beth bynnag fo'u cymhwyster; gan gynnwys goruchwyllo unrhyw drefniadau parcio ceir yn briodol er mwyn osgoi rhwystro'r briffordd neu aflonyddu ar drigolion lleol.

## **2. Defnyddio Eiddo**

- a) Ni fydd y Llogwr yn defnyddio'r Safle at unrhyw ddiben ac eithrio'r hyn a ddisgrifir yn y cytundeb llogi ac ni fydd yn is-logi nac yn defnyddio'r Safle nac yn caniatáu i'r Safle gael ei ddefnyddio at unrhyw ddibenion anghyfreithlon nac mewn unrhyw ffordd anghyfreithlon nac yn gwneud unrhyw beth neu ddod ag unrhyw beth i'r Safle a allai beryglu unrhyw bolisiau yswiriant neu eu gwneud yn annilys mewn perthynas â hwy na chaniatáu yfed alcohol yno.
- b) Ni fydd y Llogwr yn cysylltu/gosod unrhyw eitem nac yn gwneud unrhyw newidiadau strwythurol heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor Plwyf Eglwysig.

## **3. Hapchwarae, Betio a Loteriau**

Rhaid i'r Llogwr sicrhau na wneir unrhyw beth ar y Safle neu mewn perthynas ag ef yn groes i'r gyfraith sy'n ymwneud â hapchwarae, betio a loteriau.

## **4. Cydymffurfiaeth Diogelwch y Cyhoedd**

Rhaid i'r Llogwr gydymffurfio â'r holl amodau a rheoliadau a wneir mewn perthynas â'r Safle gan yr Awdurdod Tân, yr Awdurdod Lleol, y Llys Ynadon Lleol neu fel arall, yn enwedig mewn cysylltiad ag unrhyw ddogwyddiad sy'n cynnwys dawnsio cyhoeddus neu gerddoriaeth neu adloniant cyhoeddus tebyg arall neu lwyfannu dramâu.

## **5. Iechyd a Diogelwch**

- a) Bydd y Llogwr, os yw'n paratoi, yn gweini neu'n gwerthu bwyd, yn cadw at yr holl ddeddfwriaeth a rheoliadau iechyd a hylendid bwyd perthnasol.
- b) Mae gan y Llogwr ddyletswydd gofal i bawb sy'n dod i'r Safle ac felly mae'n gyfrifol am gadw'r giât a'r llwybr mynediad yn glir o'r holl beryglon sy'n debygol o achosi damwain neu anaf.

## **6. Diogelwch Offer Trydanol**

Rhaid i'r Llogwr sicrhau y bydd unrhyw offer trydanol a ddygir i'r Safle a'u defnyddio yno yn ddiogel ac mewn cyflwr da, ac yn cael eu defnyddio mewn modd diogel. Pan fo'n ofynnol defnyddio torrwr cylched gweddilliol yn ôl unrhyw drwydded neu os darperir un fel arall, rhaid i'r Llogwr ei ddefnyddio er budd diogelwch y cyhoedd.

## **7. Indemniad ac Yswiriant**

- a) Bydd y Llogwr yn indemnio'r Cyngor Plwyf Eglwysig am gost trwsio unrhyw ddifrod a wneir i unrhyw ran o'r Safle neu ei gynnwys a all ddogwydd yn ystod cyfnod y llogi o ganlyniad i'r llogi.
- b) Rhaid i'r Llogwr sicrhau bod yr holl gynnwys sy'n perthyn i'r Llogwr wedi'i yswirio'n ddigonol.
- c) Bydd y Llogwr yn gyfrifol am wneud trefniadau i yswirio yn erbyn unrhyw hawliadau trydydd parti a allai fod yn erbyn y Llogwr wrth ddefnyddio'r Safle.

- d) Mae'r Llogwr yn cytuno i indemnio'r Cyngor Plwyf Eglwysig mewn perthynas â phob hawliad sy'n deillio o ddefnyddio'r Safle ar gyfer anaf personol a/neu farwolaeth unrhyw berson a/neu ddifrod i'r Safle o ganlyniad neu fel arall a achoswyd gan weithred esgeulus neu anwaith y Llogwr, ei asiantau, cyflogeion neu bersonau eraill sy'n ymwneud â defnydd y Llogwr o'r Safle. Mae gan y Llogwr yswiriant a fydd yn talu am hawliadau o'r fath hyd at uchafswm o £10m mewn perthynas ag unrhyw ddigwyddiad a bydd yn cyflwyno copïau i'w harchwilio o bolisiau yswiriant mewn perthynas â hynny. Bydd y Cyngor Plwyf Eglwysig yn hysbysu ei gwmni yswiriant ei hun o'r gweithgareddau arfaethedig.

## **8. Damweiniau a Digwyddiadau Peryglus**

Rhaid i'r Llogwr roi gwybod am bob damwain sy'n ymwneud ag anaf i'r cyhoedd i Gynrychiolydd Awdurdodedig y Cyngor Plwyf Eglwysig cyn gynted â phosibl. Rhaid adrodd am unrhyw achos o gyfarpar sydd naill ai'n perthyn i'r Safle neu a gyflwynwyd gan y Llogwr yn methu cyn gynted â phosibl. Rhaid rhoi gwybod i'r awdurdod lleol am fathau penodol o ddamwain neu anaf. Mae hyn yn unol â Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013.

## **9. Anifeiliaid**

Rhaid i'r Llogwr sicrhau na chaiff neb ddod ag unrhyw anifeiliaid (gan gynnwys adar) ac eithrio cŵn cymorth fel y'u diffinnir gan a173(1) Deddf Cydraddoldeb 2010 a'u hadnabod yn hawdd fel y cyfryw i'r Safle.

## **10. Diogelu**

Rhaid i'r Llogwr sicrhau bod unrhyw weithgareddau sy'n ymwneud â phlant a / neu oedolion sydd mewn perygl yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a Pholisi Diogelu'r Eglwys yng Nghymru ac mai dim ond pobl addas a phriodol sydd â mynediad at blant ac oedolion sydd mewn perygl ar safle sy'n eiddo i'r Eglwys yng Nghymru. Mae Atodlen 4 y cytundeb hwn yn manylu ar amodau diogelu i'w dilyn gan yr llogwr.

## **11. Gosod Poster i'n Anghyfreithlon**

Ni fydd y Llogwr yn gosod nac yn caniatáu gosod poster i'n anghyfreithlon nac unrhyw fath arall o hysbysebion anawdurdodedig ar gyfer unrhyw ddigwyddiad sy'n digwydd ar y Safle a bydd yn indemnio'r Cyngor Plwyf Eglwysig yn unol â hynny yn erbyn pob hawliad gweithredu ac achos sy'n deillio o unrhyw achos o dorri'r amod hwn. Gall methu â dilyn yr amod hwn arwain at erlyniad gan yr Awdurdod Lleol.

## **12. Gwerthu Nwyddau**

Bydd y Llogwr, os yw'n gwerthu nwyddau ar y Safle, yn cydymffurfio â Chyfreithiau Masnachu Teg ac unrhyw god ymarfer a ddefnyddir mewn cysylltiad â gwerthiannau o'r fath. Yn benodol, bydd y Llogwr yn sicrhau bod cyfanswm prisiau'r holl nwyddau a gwasanaethau yn cael eu harddangos yn amlwg, yn ogystal ag enw a chyfeiriad y trefnydd a bod unrhyw ostyngiadau a gynigir yn seiliedig ar Brisiau Manwerthu a Argymhellir gan Weithgynhyrchwyr yn unig.

## **13. Canslo**

Mae angen mis o rybudd ar gyfer unrhyw ganslo arfaethedig. Er gwaethaf hysbysiad o'r fath, os nad yw'r Cyngor Plwyf Eglwysig yn medru cwblhau archeb newydd, bydd ganddo hawl i gael taliad am yr archeb a ganslwyd ar y gyfradd a bennir yma.

Mae'r Cyngor Plwyf Eglwysig yn cadw'r hawl i ganslo'r llogi hwn os bydd amgylchiadau annisgwyl yn golygu nad yw'r Safle'n addas i'w ddefnyddio.

**14. Gwrthod Archeb**

Mae'r Cyngor Plwyf Eglwysig yn cadw'r hawl i wrthod archeb heb rybudd neu i ganslo'r cytundeb llogi hwn ar unrhyw adeg naill ai cyn neu yn ystod cyfnod y cytundeb trwy roi mis o rybudd ysgrifenedig i'r Llogwr.

Bydd gan y Llogwr hawl o dderbyn y fath hysbysiad i ad-daliad o'r cyfryw arian a dalwyd gan y Llogwr i'r Cyngor Plwyf Eglwysig ac ni fydd y Llogwr yn atebol i wneud unrhyw daliad pellach i'r Cyngor Plwyf Eglwysig.

**15. Diwedd Llogi**

Bydd y Llogwr yn gyfrifol am adael y Safle a'r ardal gyfagos mewn cyflwr glân a thaclus, wedi'i gloi a'i ddiogelu'n briodol oni bai ei fod wedi cael cyfarwyddyd gwahanol a bod unrhyw gynnwys a symudwyd dros dro o'u lleoliadau arferol yn cael eu rhoi'n ôl yn briodol, neu fel arall bydd y Cyngor Plwyf Eglwysig yn rhydd i godi tâl priodol.

**16. Sŵn**

Bydd y Llogwr yn sicrhau y gwneir cyn lleied o sŵn ag sy'n bosibl wrth gyrraedd a gadael.

## **Atodlen 2 - Amodau Arbennig**

1. Mae'r Llogwr drwy hyn yn cydnabod derbyn copi o'r Drwydded Safle neu'n cytuno i fod yn gyfrifol am gael Hysbysiad Digwyddiadau Dros Dro (TEN) o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac unrhyw ddiwygiadau dilynol (dilêwch fel y bo'n briodol).
2. Mae'r Llogwr, nad yw'n berson o dan 18 oed, drwy hyn yn derbyn cyfrifoldeb am fod yn gyfrifol am y Safle ac ar y Safle bob amser pan fo'r cyhoedd yn bresennol ac am sicrhau bod holl amodau'r Drwydded/TEN sy'n ymwneud â rheoli a goruchwyllo'r Safle yn cael eu bodloni.
3. Bydd y Llogwr yn sicrhau y bydd pawb sy'n mynd i mewn i'r adeilad yn cael eu goruchwyllo.
4. Mae'r Llogwr yn cydnabod ei fod / ei bod wedi derbyn cyfarwyddyd ynghylch y materion canlynol:
  - a) Y camau i'w cymryd os bydd tân. Mae hyn yn cynnwys galw'r frigâd dân a gadael y Safle.
  - b) Lleoliad a defnydd offer tân (gan gynnwys diagram o'r lleoliad wrth drosglwyddo allweddi).
  - c) Llwybrau dianc a'r angen i'w cadw'n glir.
  - d) Dull gweithredu drysau'r allanfeydd.
  - e) Gwerthfawrogiad o bwysigrwydd unrhyw ddrysau tân a chau pob drws tân adeg tân.
5. Cyn unrhyw adloniant neu ddrama bydd y Llogwr yn gwirio'r eitemau canlynol:
  - a) Bod yr holl allanfeydd tân wedi'u datgloi a bod bolltau panig mewn cyflwr da.
  - b) Nad oes unrhyw rwystrau ar hyd unrhyw lwybr dianc a bod modd eu defnyddio'n ddiogel.
  - c) Nad oes plocyn wedi ei roi i gadw unrhyw ddrws tân ar agor.
  - d) Bod arwyddion allanfeydd tân wedi'u goleuo.
  - e) Nad oes unrhyw beryglon tân amlwg ar y Safle.
6. Yn ogystal â'r Llogwr, bydd o leiaf 2 gynorthwydd cymwys ar ddyletswydd ar y Safle i gynorthwyo pobl sy'n dod i mewn ac yn gadael, ac ni fydd yr un ohonynt yn iau na 18 oed. Bydd pawb sydd ar ddyletswydd wedi cael cyfarwyddyd ynghylch eu cyfrifoldebau hanfodol os bydd tân neu argyfyngau eraill, gan gynnwys rhoi sylw i bobl anabl, lleoliad a defnydd yr offer tân sydd ar gael, sut i alw'r frigâd dân a'r weithdrefn ddianc.

## Atodlen 3 – Ffi Llogi

Fel y cytunwyd rhwng y Llogwr a'r Cyngor Plwyf Eglwysig.

**Blaendal Archebu (os yw'n berthnasol):**

£ \_\_\_\_\_

Yn daladwy wrth lofnodi cytundeb ac ni cheir ad-daliad. Mae'n cynrychioli rhan o'r ffi llogi a bydd balans y ffioedd yn daladwy wrth neu cyn i'r digwyddiad ddod i ben.

**Y balans i'w dalu:**

£ \_\_\_\_\_

**Blaendal Difrod (os yw'n berthnasol):**

£ \_\_\_\_\_

Bydd y Blaendal Difrod yn cael ei ad-dalu o fewn 14 diwrnod i ddiwedd y cyfnod llogi ar yr amod nad oes unrhyw ddifrod neu golled wedi'i achosi i'r Safle.

## **Atodlen 4 – Amodau Diogelu**

Mae gan yr Eglwys yng Nghymru Bolisi ar Ddiogelu Plant ac Oedolion sydd mewn perygl. Mae'r cytundeb yn amodol ar i'r Llogwr sicrhau bod plant ac oedolion sydd mewn perygl yn cael eu diogelu bob amser, drwy gymryd pob cam rhesymol i atal anaf, salwch, colled neu ddifrod rhag digwydd; a bod gan y Llogwr yswiriant atebolrwydd llawn ar gyfer hynny. Yn ogystal ac yn benodol bydd y Llogwr:

1. cyn y cytundeb wedi hysbysu Swyddog Diogelu'r Eglwys yng Nghymru am unrhyw droseddwr hysbys yn erbyn plant neu oedolion sydd mewn perygl sy'n rhan o aelodaeth y Llogwr sy'n bwriadu defnyddio adeiladau eglwysi, ac os bydd aelodau o'r fath yn bresennol, ar yr amod bod copi o'r cynllun rheoli risg ar waith i reoli'r risgiau y maent yn eu hachosi i bobl sy'n agored i niwed.
2. wedi recriwtio gan recriwtio'n ddiogel yr holl weithwyr cyflogedig a gwirfoddol a fydd yn gweithio gyda phlant a/neu oedolion sydd mewn perygl, drwy ymgymryd â phrosesau recriwtio mwy diogel, gan gynnwys datgeliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ond heb fod yn gyfyngedig iddynt lle bo hynny'n gymwys;
3. yn cadw rhestr o enwau'r holl weithwyr cyflogedig a gwirfoddol sydd â chyswllt â phlant ac oedolion sydd mewn perygl;
4. yn cadw cofrestr yn ddiogel o'r plant ac oedolion sydd mewn perygl a fydd yn bresennol, a fydd yn cynnwys manylion eu henwau, manylion cyswllt rhieni/gwarcheidwaid/gofalwyr etc., dyddiad geni a'r perthynas agosaf;
5. yn cydymffurfio â Pholisi Diogelu'r Llogwr a chanllawiau arfer gorau mewn perthynas â phlant ac oedolion sydd mewn perygl. Os nad oes gan y Llogwr bolisi o'r fath, mae'r Llogwr yn cytuno i gydymffurfio â Pholisi Diogelu'r Eglwys yng Nghymru, sydd ar gael ar-lein yma: [https://churchinwales.contentfiles.net/media/documents/2064\\_-\\_NEW\\_Safeguarding\\_Policy\\_only\\_i\\_-\\_WELSH.pdf](https://churchinwales.contentfiles.net/media/documents/2064_-_NEW_Safeguarding_Policy_only_i_-_WELSH.pdf)
6. yn sicrhau bod o leiaf ddau arweinydd dros 18 oed ganddynt mewn unrhyw grŵp o blant, waeth pa mor fach yw'r grŵp;
7. yn ymatal rhag gadael unrhyw berson o dan 18 oed yn gyfrifol am unrhyw blant o unrhyw oedran;
8. gan beidio â gadael unrhyw blentyn neu grŵp o blant heb oruchwyliaeth ar unrhyw adeg;
9. yn hysbysu Swyddog Diogelu'r Eglwys yng Nghymru ar unwaith (o fewn 24 awr) am unrhyw ddigwyddiadau neu honiadau o gam-drin neu achosion o bryder sy'n ymwneud â'r gweithgaredd ar safle'r Eglwys, ac yn rhoi manylion cyswllt i'r person sy'n delio ag ef.

Enwir Swyddog Diogelu'r Eglwys yng Nghymru ar ddechrau'r cytundeb hwn.

**DS – Nid yw Amodau 1 i 4 yn gynhwysol, fel y nodwyd uchod, yn berthnasol i unigolion sy'n llogi adeiladau eglwysig ar gyfer digwyddiad preifat, e.e. parti pen-blwydd, neu ddigwyddiad preifat tebyg.**



## Taflen Wybodaeth i'r Llogwr

**Diogelwch:**

Os bydd tân, dylid gadael y Safle mewn modd trefnus gan ddefnyddio'r allanfeydd priodol a galw'r Frigâd Dân drwy ddeialu 999.

Rhaid nodi union leoliad yr allanfeydd tân a'r diffoddwyr tân cyn bod neb ar y Safle a dylid hysbysu defnyddwyr y Safle o'r dull o agor drysau tân. (Amgaeir braslun o gynllun sy'n dangos y rhain).

**Rhif ffôn:**

Nid oes ffôn ar y Safle ac argymhellir ffôn symudol am resymau diogelwch.

**Cylchedau Pŵer:**

Mae'r brif gylched bŵer wedi'i lleoli yn y

**Bod yn ystyriol o eraill:**

Sicrhewch fod defnyddwyr y Safle yn gadael yn dawel ar ddiwedd eich digwyddiad a pheidiwch ag aflonyddu neu achosi annifyrrwch i'r trigolion lleol.

Gadewch y Safle'n lân ac yn daclus a dychwelwch unrhyw eitemau neu ddodrefn sy'n cael eu symud i'w lleoliadau gwreiddiol fel y dangosir ar y cynllun, oni chytunir fel arall.